

Diogelu at y dyfodol?

Cynaliadwyedd ariannol yn Awdurdod Parc
Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mawrth 2026

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan Adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Efallai y bydd hefyd yn goleuo adroddiad dan Adran 15(3) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau i chi yn yr iaith a ddefnyddir gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru'n dilyn y safonau archwilio perfformiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	6
Ein canfyddiadau	7
Argymhellion	10
Atodiadau	11
Ynglŷn â'n gwaith	12

Cipolwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

- 1 Fe wnaethom ystyried sut y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) yn gweithredu i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ei gynlluniau ariannol, y dystiolaeth y mae'n ei defnyddio i ddatblygu ei gynlluniau, a sut y mae'n adrodd wrth aelodau ar ei sefyllfa ariannol.
- 2 Ni wnaethom fwrw golwg ar drefniadau rheoli ariannol ehangach yr Awdurdod na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae wedi eu gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.
- 3 Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu sicrwydd ac ategu gwelliant o ran sut y mae'r Awdurdod yn gweithio i wella ei gynaliadwyedd yn y tymor canolig a hir. Rydym yn cydnabod efallai fod rhai pethau sy'n effeithio ar hyn y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys lefel y cyllid y mae'n ei gael a digwyddiadau byd-eang fel pandemig COVID-19. Mae'r cyd-destun anodd yn golygu bod cynllunio ar gyfer gwahanol senarios a bod yn glir ynghylch yr opsiynau sydd ar gael yn bwysig. Mae hefyd yn dangos nad yw hi wastad yn bosibl cynllunio'n fanwl yn y tymor canolig a hir.

Pam fod hyn yn bwysig

- 4 Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac wedi bod yn eu hwynebu am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn gosod yr Awdurdod dan bwysau i daro cydbwysedd rhwng yr hyn y mae arno eisiau neu angen ei wario ar y naill law a chyllid sy'n dal i fod yn her ar y llaw arall. Mae taro'r cydbwysedd cywir yn hyn o beth yn her sylweddol ac yn golygu bod rhaid i'r Awdurdod daro cydbwysedd rhwng gwahanol ffactorau i sicrhau ei fod yn defnyddio arian cyhoeddus yn y ffordd orau. Mae hyn yn gwneud cynllunio i gyflawni cynaliadwyedd yn allweddol i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos gwerth am arian.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

- 5 Er gwaethaf yr amgylchedd ariannol sy'n gryn her, canfuom fod trefniadau'r Awdurdod wedi ei helpu i gyrraedd sefyllfa ariannol gymharol gryf. Fodd bynnag, mae ar adeg gynnar o ran nodi ei gynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

- 6 Rydym wedi argymell bod yr Awdurdod yn adeiladu ar ei gynnydd o ran creu incwm ac adnabod arbedion i ddatblygu a chyfleu strategaeth tymor hwy ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol. Wedyn rydym yn argymell ei fod yn adolygu sut y mae'n cyfleu ei adroddiadau ariannol i roi cymorth i gyflawni ei strategaeth.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- 139% – swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol ar ddiwedd 2024-25 yr oedd yr Awdurdod yn eu dal fel canran o gost net ei wasanaethau. Dyma'r ganran fwyaf o'r holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Mae wedi bod y ganran fwyaf ers 2020-21 pan fo data ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn dechrau. Mae hyn yn gyfwerth â £7.4 miliwn.
- 175% – y twf yn yr incwm blynyddol y mae'r Awdurdod wedi bod yn ei greu yng Nghastell Caerw ers 2015-16.
- 120% – y twf yn yr incwm blynyddol ar y cyfan y mae'r Awdurdod wedi bod yn ei greu ers 2010-11.

Ein canfyddiadau

Mae'r Awdurdod yn amlwg yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol, gan gynnwys ei sefyllfa gymharol gryf o ran cronfeydd wrth gefn, a'i risgiau cysylltiedig

- 8 Mae gan yr Awdurdod sefyllfa gymharol gryf o ran cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â chyrff eraill mewn llywodraeth leol. Roedd gan yr Awdurdod swm a oedd yn gyfwerth â 139% o gost net ei wasanaethau mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy na chyfyngid arnynt gan y gyfraith ar ddiwedd 2024-25.¹ Dyma'r gyfran fwyaf o blith yr holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn darparu sefyllfa gref i'r Awdurdod gynllunio ohoni. Mae hefyd yn gosod her i'r Awdurdod eu defnyddio yn y ffordd orau i ategu ei gynaliadwyedd ariannol a chyflawni gwerth am arian dros y tymor hwy.
- 9 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'i heriau a'i risgiau allweddol o ran cyllid yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi rhagweld sut allai gostyngiadau mewn cyllid yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru edrych ac mae wedi adnabod pwysau eraill, fel cyflogau, yn y tymor byr. Mae gwybodaeth fanwl am y pwysau o ran cyllid a'r risgiau ariannol yn bwysig i helpu i ddatblygu strategaeth ariannol sy'n seiliedig ar wybodaeth dda.

¹ Rydym yn cyhoeddi'r data hwn fel rhan o'n hofferyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol. Gall ein diffiniad o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn wahanol i'r un a ddefnyddir gan wahanol gyrff.

Mae'r Awdurdod wedi canolbwyntio ar greu incwm yn y tymor byr, ond mae ar gam cynnar o ran meddwl am ei ddull strategol tymor hwy

- 10 Mae'r Awdurdod wedi bod yn canolbwyntio ar greu incwm i wella ei sefyllfa ariannol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Awdurdod wedi bod yn defnyddio sgiliau masnachol ei swyddogion i gynyddu'r refeniw y mae'n ei greu o'i asedau gan gynnwys, er enghraifft, Castell Caeriw (**Arddangosyn 1**). Trwy wneud hyn, mae'r Awdurdod wedi mwy na dyblu'r incwm y mae'n ei greu o'i ymwelwyr ers 2010-11. Mae hefyd wedi ychwanegu at hyn trwy chwilio ac ymgeisio am fwy o gyllid grant. Ar y cyfan, mae hyn wedi golygu bod gan yr Awdurdod fwy o incwm a mwy o ffynonellau incwm. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod i reoli'r risg y gall cyllid y mae'n ei gael o rai ffynonellau leihau yn y dyfodol.

Arddangosyn 1: enghraifft ddiddorol o arfer

Castell Caeriw

Ers 2015-16, mae'r Awdurdod wedi cynyddu'r incwm y mae'n ei greu o Gastell Caeriw 175%. I wneud hyn, mae'r Awdurdod wedi cynyddu defnyddiau'r ased. Er enghraifft, mae wedi ychwanegu ystafell de ac wedi dechrau lletya priodasau. Mae'r incwm arall hwn yn ychwanegol at y ffynonellau incwm eraill yn y castell, fel tocynnau ymwelwyr a gwerthiant y siop. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi creu elw y mae wedi gallu ei wario ar wasanaethau eraill a helpu i leihau'r pwysau ar ei gyllideb.

Ffynhonnell: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 11 Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi nodi ei strategaeth ariannol dros y tymor canolig a hir eto. Ar hyn o bryd mae cyllideb yr Awdurdod yn canolbwyntio ar y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n defnyddio tybiaethau i gynllunio ar gyfer gwahanol senarios yn y dyfodol. Nid yw ychwaith wedi nodi sut y gallai ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol yn ei gyllideb, er enghraifft trwy gyllido gweithgarwch i drawsnewid gwasanaethau. Er bod hyn yn adlewyrchu sefyllfa gref yr Awdurdod ar hyn o bryd, mae'n creu risgiau i werth am arian yn y dyfodol.

- 12 Mae strategaeth ariannol eglur, y cytunwyd arni, sy'n seiliedig ar wybodaeth dda yn allweddol i gyfleu a darparu cyfeiriad ar gyfer sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r pwysau o ran cyllid y mae'n meddwl y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol, yn enwedig sut y bydd yn cau'r bwch o ran cyllid a ragwelir ganddo yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Awdurdod i ddeall effaith pob rhan o'i strategaeth ar ei amcanion llesiant a'i ddibenion cyfreithiol.
- 13 Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi dechrau ystyried sut y gall fynd i'r afael â'i ddiffyg strwythurol a gwneud arbedion. I wneud hyn, mae wedi creu grŵp creu incwm. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i drafod syniadau ar gyfer creu arbedion ac incwm ar draws yr Awdurdod. Mae hefyd yn monitro'r cynnydd o ran gweithredu cynigion. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r grŵp gyflwyno ei ganlyniadau cychwynnol yn 2026-27. Mae hyn yn darparu man cychwyn i'r Awdurdod ddatblygu strategaeth ariannol eglur ar gyfer y tymor hwy.

Mae'r Awdurdod yn adrodd yn eglur ac yn rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol ond gallai gryfhau hyn trwy egluro goblygiadau'r amrywiannau yn ei gyllideb

- 14 Mae'r Awdurdod yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol i aelodau. Mae'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn cael adroddiadau ariannol chwarterol. Mae'r adroddiadau'n nodi sut y mae gwariant yr Awdurdod yn amrywio o'i gymharu â'i gyllideb. Mae cyflwyno adroddiadau eglur a mynych am sefyllfa ariannol yr Awdurdod i aelodau'n eu helpu hwy i wybod am ei sefyllfa ariannol. Gall hyn helpu aelodau i adnabod risgiau ariannol a gweithredu i wella sefyllfa hirdymor yr Awdurdod.
- 15 Fodd bynnag, nid yw adroddiadau'r Awdurdod yn rhoi esboniad eglur o oblygiadau gorwariant neu danwariant. Gall nodi effaith gorwariant neu danwariant ar ei amcanion llesiant, ei gyfrifoldebau statudol a'i sefyllfa ariannol ar y cyfan helpu i gryfhau goruchwyliaeth a chraffu gan aelodau. Gall hyn ategu cynaliadwyedd ariannol ymhellach.

Argymhellion

A1 Dylai'r Awdurdod adeiladu ar ei weithgarwch diweddar i ddatblygu strategaeth ariannol tymor hwy eglur. I wneud hyn, dylai'r Awdurdod nodi sut y bydd:

- 1.1** yn lliniaru ac yn rheoli'r risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol tymor canolig;
- 1.2** yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn yn strategol i ddwyn gwerth am arian dros y tymor canolig a hwy; ac
- 1.3** yn mesur ac yna'n monitro effaith ei strategaeth a'r opsiynau y mae'n eu hystyried ar ei amcanion llesiant a'i ddibenion statudol.

A2 Adolygu'r drefn o ran llunio ei adroddiadau ariannol i sicrhau ei fod:

- 2.1** yn adrodd yn rheolaidd ar gyflawni ei strategaeth ariannol ac effaith hyn; a
- 2.2** yn nodi goblygiadau amrywiannau yn y gyllideb ar gyfer ei sefyllfa ariannol, ei amcanion a'i ddyletswyddau statudol.

Atodiadau

Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom ystyried sut y mae'r Awdurdod yn gweithredu i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ei gynlluniau ariannol, y dystiolaeth a ddefnyddiodd i ddatblygu ei gynlluniau, ac yna sut y mae'n adrodd wrth aelodau ar ei sefyllfa ariannol. Fe wnaethom fwrw golwg ar y trefniadau a oedd yn eu lle rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025.

Ni wnaethom ystyried trefniadau rheoli ariannol ehangach yr Awdurdod na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae wedi eu gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

Cwestiynau

Daethom i'n casgliadau ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod trwy ateb tri chwestiwn allweddol. Yn gyntaf, fe ofynnem ni a oes gan yr Awdurdod gynllun eglur a hirdymor ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol. Yn ail, fe wnaethom ystyried a yw'r Awdurdod yn gwybod am y sefyllfa ariannol y mae ynddi ac wedi defnyddio'r wybodaeth i siapia ei strategaeth. Yn drydydd, fe ofynnem ni a yw adroddiadau ariannol yr Awdurdod i aelodau'n eu helpu i oruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol.

Meini prawf

Rydym yn defnyddio'r meini prawf archwilio i'n helpu i ateb ein cwestiynau am drefniadau'r Awdurdod. Maent yn ein helpu i ddeall sut allai neu sut y dylai trefniadau edrych yn eu cyd-destun. Fe wnaeth gwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'n gwybodaeth gronnus ni siapia eu datblygiad.

Dulliau

Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweiliadau gydag uwch swyddogion a Chadeirydd yr Awdurdod.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan gael cymorth ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.